

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM  
CYNLLUN GWEITHREDU RHEOLI CYRCHFAN  
2018-20





## CYFLWNIAD

**Yn 2012, lluniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham ei Gynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan cyntaf. Mae llawer wedi newid ers hynny. Mae gwariant twristiaeth nawr wedi'i amcangyfrif i fod yn £116 miliwn ac mae'n cefnogi 1,600 o swyddi yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r gwariant wedi bod yn sylweddol gan ei fod wedi cynyddu o 38% yn y 5 mlynedd diwethaf.**

Ers 2012, bu buddsoddi sylweddol yng Nghastell y Waun, Neuadd Erddig, Basn Trefor, cae ras Bangor Is-y-coed a ffocws newydd ar adfywio canol y dref gyda chanolfan gelfyddydau, diwylliant a marchnadoedd - Tŷ Pawb. Mae'r bariau a'r bwytai nawr wedi cael gweithredwyr a buddsoddiad newydd, a datblygwyd nifer o ddigwyddiadau mawr megis FOCUS Cymru, O Dan y Bwau, Marchnadoedd Nadolig Fictoraidd, cyngherddau yn Stadiwm y Cae Ras a ComiCon Cymru.

Lansiwyd partneriaeth newydd 'Dyma Wrexham' – y cyntaf o'i fath yn Wrexham - yn 2017, a daeth â ffocws newydd i'r diwydiant twristiaeth drwy gydweithio. Wedi'i arwain gan y sector preifat, bydd y bartneriaeth yn darparu cynllun gweithredu newydd ar y cyd gyda Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham a defnyddio eu cyllid eu hunain o ffioedd aelodaeth i gael mynediad at nawdd i gefnogi'r amcanion hyn.

Mae ein Cynllun Gweithredu Cyrchfan newydd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrexham yn para hyd at 2020. Mae'n:

- Darparu canolbwynt strategol i ddatblygiad a rheolaeth cynnyrch/profiad yr ymwelwr;
- Nodi gweithrediadau clir, cydlynol, gyda blaenoriaethau;
- Amlinellu fframwaith cyflawni partneriaeth i'r cyhoedd a'r sectorau preifat.

Rydym yn hyderus y bydd y maes twristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrexham yn parhau i ffynnu drwy fuddsoddiad pellach, creu swyddi, marchnata cryf a chroeso cynnes – ac rydym yn gobeithio y gallwch ymuno â ni am y daith!



**Y Cynghorydd Terry Evans**

*Aelod Arweiniol Economi  
Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Wrexham*



**Sam Regan**

*Cadeirydd – Partneriaeth Dyma  
Wrexham*



**Joe Bickerton**

*Rheolwr Cyrchfan, Cyngor  
Bwrdeistref Sirol Wrexham*



## CRYFDERAU, HERIAU A CHYFLEOEDD

Mae gan Fwrdeistref Sirol Wrecsam nifer o gryfderau. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd treftadaeth eiconig, ei lleoliad a hygyrchedd, yr awyr agored a thirwedd syfrdanol, naws am le cadarn, a'r seilwaith cefnogaeth cryf a ddatblygwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae heriau. Mae adnoddau yn parhau i fod yn gyfyngedig. Mae safleoedd allweddol (megis Castell y Waun, Neuadd Erddig a Basn Trefor) yn gweithredu'n gynyddol ar gapasiti sy'n cyfyngu cyfleoedd i'w hyrwyddo fel atyniadau allweddol.

Mae cyfleoedd fodd bynnag ar gyfer y dyfodol. Yn Wrecsam, mae Tŷ Pawb, digwyddiadau, ailddatblygu'r Marchnad Gyffredinol a Marchnad y Cigydd yn creu cyfle ar gyfer ardal ymwelwyr. Mae Uwchgynllun Safle Treftadaeth y Byd yn ailgyflwyno cyfle ar gyfer datrys problemau ymwelwyr hirdymor ym Masn Trefor a chreu cynnyrch ymwelwyr eiconig. Mae Partneriaeth Twristiaeth 'Dyma Wrecsam' yn creu cyfle i gael mynediad at nawdd, ac mae cyfle i ddatblygu marchnad y diwydiant teithio ymhellach.

## EGWYDDORION ARWEINIOL

Mae'r Cynllun Gweithredu Cyrchfan yn sail i nifer o egwyddorion arweiniol:

- Gall datblygu cyrchfan gymryd degawdau – mae'r cynllun yn rhan o'r broses hirach ac ehangach honno;
- Canolbwynt ar ddwy farchnad eang a chysyniad safle marchnad – Archwiliwr Cefn Gwlad a Diwylliant Wrecsam;
- Gweithio mewn partneriaeth drwy Bartneriaeth Twristiaeth 'Dyma Wrecsam';
- Gweithio dros ffiniau, yn enwedig gyda phartneriaeth marchnata GDD Cymru;
- Datblygu teimlad 'naws am le' yn y Bwrdeistref Sirol;
- Cyfleoedd traws werthu a datblygu amserlenni sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr i ychwanegu at brofiad ymwelwyr;
- Blaenoriaethu gweithgareddau.





## BLAENORIAETHAU AR GYFER GWEITHREDU

Dyluniwyd y Cynllun Cyrchfan i gyfeirio at ddatblygu a rheoli blaenoriaethau cynnyrch cyrchfan drwy bedwar maes gwaith.

**SAFLE TREFTADAETH Y BYD** Mae Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Safle Treftadaeth y Byd yn fantais allweddol i Fwrdeistref Sirol Wrecsam a Gogledd Cymru, ond nid yw'n perfformio i'w llawn botensial. Mae blaenoriaethu ar gyfer datblygu'n cynnwys rheoli ymwelwyr yn well a datblygu'r safle yn ehangach, traws werthu a chreu cysylltiadau cryfach gydag asedau eraill yn yr ardal. Bydd datblygiad yr Uwchgynllun yn allweddol yn hyn.

**TREF WRECSAM** Mae tref Wrecsam yn cyflwyno cyfleoedd sylweddol i ddatblygu twristiaeth yn y Fwrdeistref – gall atynnu gwahanol gynulleidfa i weddiill y Fwrdeistref, a gall cyfleoedd gwario i ymwelwyr fod yn sylweddol. Mae angen i economi ymwelwyr ddatblygu yn baralel gydag adfywio ehangach canol y dref.

Mae blaenoriaethau'n cynnwys safle mwy nodweddiadol fel canolfan ddiwylliannol ar gyfer Gogledd Cymru (gan adeiladu ar agoriad Tŷ Pawb), datblygiad ac arallgyfeiriad cynigion economi manwerthu a nosweithiau, digwyddiadau ac animeiddiad yn y dref yn cynnwys datblygiad digwyddiad nodweddiadol a datblygiad llety pellach. Mae datblygu seilwaith ymwelwyr (megis parcio coets a Chanolfannau Croeso mewn lleoliadau gwell) a datblygiad cynnyrch pellach (y Farchnad Cyffredinol a Marchnad y Cigydd er enghraifft) yn flaenoriaethau.

**NAWS AM LE** Mae Naws am Le yn bwriadu adeiladu profiad ymwelwyr arbennig, o safon, a dathlu asedau'r ardal (treftadaeth, bwyd, yr amgylchedd, diwylliant). Gwnaed cynnydd sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, a dylai hynny barhau. Mae elfennau yn cynnwys hyrwyddo cynnyrch lleol, rhwydweithio busnes ac ymweliadau ymgyfarwyddo. Mae angen hyrwyddo'r sector yn lleol hefyd, drwy golegau a menter 'calon a meddwl' drwy dargedu preswylwyr y fwrdeistref sirol ynghyd â busnesau nad dynt yn ymwneud â thwristiaeth.

**RHEOLI YMWELWYR A GWYBODAETH** Mae gan Safle Treftadaeth y Byd rôl allweddol mewn atynnu ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol, a dylai hyn fod yn ganolbwynt i weithgareddau hyrwyddo. Fodd bynnag, mae angen ymgyrch hyrwyddo ar wahân ar gyfer tref Wrecsam, gyda neges wahanol sy'n targedu cynulleidfa leol.

Ar hyn o bryd mae dau ymgyrch yn cynnwys Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sef GDd Cymru a 'Dyma Wrecsam'. Mae cwmpas ac angen i barhau gyda'r rhain – mae'r ddau 'frand' yn berthnasol. Mae angen ar gyfer traws werthu cyfleoedd - e.e. drwy amserlenni neu roi awgrymiadau i ymwelwyr o bethau ychwanegol i weld neu eu gwneud.

Y cyfleoedd eraill sy'n cael eu dilyn yw datblygu'r farchnad diwydiant teithio, adleoli'r Ganolfan Groeso a datblygu cynlluniau arwyddo.



## CYNLLUN GWEITHREDU

Mae prosiectau wedi cael eu categorioedd mewn dwy ffordd:

- Cynnyrch catalytig a chynnal a chadw - mae gan brosiectau catalytig botensial i drawsnewid neu ddatblygu'r cyrchfan ymhellach. Bydd prosiectau cynnal a chadw'n parhau i ddatblygu'r cyrchfan yn nhermau parhau i ymgymryd â hanfodion rheoli cyrchfan, marchnata a datblygu cynnyrch sy'n ychwanegu at ddyfnder cyffredinol y cynnig (ond heb effaith trawsnewidiol prosiectau catalytig).
- 'Rhaid gwneud' a 'dymunol' – mae 'rhaid gwneud' yn ddisgrifiad union - prosiectau hanfodol sydd angen cael eu darparu (neu eu datblygu) dros y tair blynedd nesaf. Mae 'Dymunol' yn brosiectau y dylid eu cymryd ymlaen os yw adnoddau'n caniatáu hynny. Mae'r rhain wedi cael eu rhannu yn flaenoriaeth uchel a chanolig.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prosiectau yn erbyn y ddau gategori

	Prosiectau Catalytig	Cynnal a Chadw
Rhaid gwneud	Uwchgynllun Safle Treftadaeth y Byd Tŷ Pawb	Safle Wrecsam Rhwydweithio Dyma Wrecsam GDd Cymru Calonnau a Meddwl
Dymunol - uchel	Digwyddiad diwylliannol nodweddiadol	Rhaglen Digwyddiadau Ymweliadau Grŵp – seilwaith Wrecsam Brand Cyfochrog Diwydiant teithio
Dymunol - canolig	Datblygiad Llety a Chroeso	Prosiect Treftadaeth Brymbo Treftadaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam Rheoli Ymwelwyr Wrecsam Bwyd – hyrwyddo bwyd lleol Datblygu Sgiliau / Sector Gwyn ar Frown ac arwyddion porth





Mae'r tabl canlynol yn crynhoi cynllun gweithredu amlinellol yn bennaf ar gyfer Partneriaeth Twristiaeth Dyma Wrecsam a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'n para hyd at 2020 ond mae disgwyl iddo ymestyn yn ystod y cyfnod hwn.

Geirfa:

CBSW - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam


CRT - Ymddiriedolaeth Afonydd a Chamlesi

TiW – Partneriaeth Twristiaeth Dyma Wrecsam

Prosiect	Disgrifiad	Math y prosiect / blaenoriaeth	Amserlen			Arweinydd Prosiect
			2018	2019	2020	
Uwchgynllun Safle Treftadaeth y Byd	Cwblhau llunio'r Uwchgynllun a'i fabwysiadu	Catalytig Rhaid gwneud	✓			CBSW, CRT
	Gweithredu	Catalytig Rhaid gwneud	✓	✓	✓	CBSW, CRT
Prosiect Treftadaeth Brymbo	Twristiaeth parhaus a chefnogaeth marchnata ar gyfer gweithredu rhaglen saith mlynedd 'BIG Lottery's Create Your Space'	Cynnal a Chadw Dymunol - canolog	✓	✓	✓	Prosiect Treftadaeth Brymbo
Treftadaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Archwilio i ymarferoldeb dehongliad treftadaeth cyngor cyfan fel rhan o'r Strategaeth Treftadaeth. Gall hyn gynnwys I-beacon / dehongliad digidol, neu ddehongliad dynol ac adrodd straeon (drwy deithiau tywys mae'n debyg)	Cynnal a Chadw Dymunol - canolog		✓		Gwasanaethau Treftadaeth CBSW
Tŷ Pawb	Agor Tŷ Pawb a sicrhau ei integreiddiad o fewn yr economi ymwelwyr	Catalytig Rhaid gwneud	✓			CBSW
Digwyddiad Nodweddiadol	Datblygiad digwyddiad diwylliannol nodweddiadol – yn flynyddol yn ddelfrydol, amlddiwrnod gyda phŵer atynnu rhanbarthol..	Catalytig Dymunol - uchel		✓	✓	Tŷ Pawb / Sector Preifat / CBSW
Safle	Safle cryfach a hyrwyddo canol y dref - yn benodol drwy wefan Dyma Wrecsam, y cyfryngau cymdeithasol a Chysylltiadau Cyhoeddus (targedu dalgyloch o oddeutu awr o amser teithio).	Cynnal a Chadw Rhaid gwneud	✓	✓	✓	CBSW / TiW



Prosiect	Disgrifiad	Math y prosiect / blaenoriaeth	Amserlen			Arweinydd Prosiect
			2018	2019	2020	
Rhaglen Digwyddiadau	Datblygiad pellach o'r rhaglen digwyddiadau.	Cynnal a Chadw Dymunol - uchel	✓	✓	✓	Sector Preifat CBSW
Marchnadoedd	Ymchwilio i ddatblygiad y Farchnad Gyffredinol a Marchnad y Cigydd fel adnoddau sy'n canolbwyntio ar yr ymwelydd.	Cynnal a Chadw Dymunol - uchel	✓			CBSW
Ymweliadau Grŵp – seilwaith	Dechrau ymchwilio i ymarferoldeb lleoliad arbennig i barcio coets yn y dref a marchnata'r dref fel cyrchfan deithio i grwpiau.	Cynnal a Chadw Dymunol - uchel	✓	✓		CBSW
Rheoli ymwelwyr	Ymchwilio i ddewisiadau ar gyfer rhaglen rheoli ymwelwyr ehangach yn cynnwys gwybodaeth weledol i ymwelwyr a hyrwyddo digwyddiadau mewn modd clyfar a chynaliadwy, yn y dref a'r cyffiniau.	Cynnal a Chadw Dymunol - canolig		✓		CBSW
Datblygiad llety a Chroeso	Annog datblygiad llety – yn y dref a'r ardal ehangach. Anghenion llety amrywiol ar gyfer cynulleidfia ehangach yn cynnwys llety amgen megis glampio. Buddsoddi yn natblygiad croeso staff y dderbynfa ac ymwelwyr 'yn yr ystafell' mewn darparwyr presennol.	Catalytig Dymunol - canolig	✓	✓	✓	CBSW
Rhwydweithio	Rhwydweithio parhaus ac ymweliadau ymgyfarwyddo i; <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddatblygu ymwybyddiaeth busnes / cyfleoedd</li> <li>• Gwella perthnasau mewnol yn y SIR</li> <li>• Cefnogi gwelliant ar y cyd o fewn y diwydiant twristiaeth</li> </ul>	Cynnal a Chadw Rhaid gwneud	✓	✓	✓	CBSW / TiW





Prosiect	Disgrifiad	Math y prosiect / blaenoriaeth	Timescale			Project lead
			2018	2019	2020	
	<b>Tourism industry</b>					
Calonnau a Meddwl	Datblygiad parhaus ymgyrch 'calonnau a meddwl' Dyma Wrecsam. Dylai hyn gynnwys datblygu brand cyfochrog priodol, ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus lleol ac ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, ac ymgyrlltiad gyda busnesau lleol i draws hyrwyddo'r brand.	Cynnal a Chadw Rhaid gwneud	✓	✓	✓	CBSW / TiW
Brand collateral	Datblygiad llyfrgell o luniau a chynnwys i ddarparu adnoddau sylfaenol i fusnesau twristiaeth ar gyfer eu deunydd marchnata eu hunain. Casgliad Brand / argraffu a digidol i godi ymwybyddiaeth o'r brand TiW.	Cynnal a Chadw Dymunol - uchel	✓	✓	✓	CBSW / TiW
Bwyd	Hyrwyddo bwyd lleol a chynhyrchwyr bwyd lleol o fewn busnesau twristiaeth.	Cynnal a Chadw Dymunol - canolog	✓	✓	✓	CBSW / TiW
Datblygu Sgiliau / Sector	Hyrwyddo cyfleoedd y sector twristiaeth o fewn ysgolion a cholegau, gweithio gyda busnesau i ddarparu cyfleoedd o safon. Cysylltu hyn gydag arferion da Awdurdodau eraill Gogledd Cymru.	Cynnal a Chadw Dymunol - canolog	✓	✓	✓	CBSW / TiW
Dyma Wrecsam	Parhau gyda gwefan Dyma Wrecsam a'r ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, (gyda chanolbwynt ar gyfleoedd traws werthu) a datblygiad pellach cerdyn Dyma Wrecsam.	Cynnal a Chadw Rhaid gwneud	✓	✓	✓	TiW
NE Wales	Parhau gyda, ac aiddatblygu partneriaeth twristiaeth GDD Cymru gyda Sir Ddinbych a Sir y Fflint, gyda'r nod o hyrwyddo'r cynnig i gynulleidfa ehangach y DU.	Cynnal a Chadw Rhaid gwneud	✓	✓	✓	CBSW a Cyngor Sir Ddinbych a Sir y Fflint
Diwydiant teithio	Archwilio diwydiant teithio pellach a hyrwyddiad mordeithiau i ddatblygu amserlenni wedi'u targedu.	Cynnal a Chadw Dymunol - uchel	✓	✓	✓	CBSW / TiW
Canolfan Groeso Wrecsam	Ymchwilio i, a dilyn yr estyniad a'r cynnig wedi'i wella ar gyfer Canolfan Groeso Wrecsam.	Cynnal a Chadw Dymunol - uchel	✓	✓		CBSW
Gwyn ar Frown ac arwyddion porth	Adolygu'r polisi arwyddo gwyn ar frown, a'r broses gais i'w wneud yn fwy tryloyw i'r diwydiant twristiaeth. Arwyddion Porth 'Bwrdeistref Sirol Wrecsam' ar ffyrdd allweddol yn y Sir (adolygu a disodli).	Cynnal a Chadw Dymunol - canolog	✓	✓		CBSW